Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

**Teitl:** **Uwch Ymarferydd Gwaith Cymdeithasol**

**Lleoliad:** **Gweithio Ystwyth / Llys Einion, Stryd yr Eglwys, Abertyleri**

**Cyfarwyddiaeth:** **Gwasanaethau Cymdeithasol Plant**

**Rhif Swydd:** **Amrywiol**

**Cyflog:** **Gradd 9 (£38,553 to £42,614)**

**Oriau:** **37**

**Contract:** **Parhaol**

**Crynodeb Swydd**

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Blaenau Gwent yn dymuno penodi, ar sail barhaol, dri Uwch Ymarferydd Gwaith Cymdeithasol yn seiliedig o fewn y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth a'r Timau Bro. Bydd angen i'r ymgeiswyr llwyddiannus ddangos gallu i ymgymryd ag arfer gwaith cymdeithasol cymhleth a gwneud penderfyniadau mewn gwasanaethau cymdeithasol statudol, gallu i gefnogi a goruchwylio staff, gweithio mewn partneriaeth ac yn unol â deddfwriaeth, rheoliadau, canllawiau a pholisïau'r Adran.

**Hysbyseb Law**

Mae cyfle cyffrous wedi codi ar gyfer gweithwyr cymdeithasol profiadol gyda chymwysterau (neu uwch ymarferwyr gwaith cymdeithasol presennol) i ymuno â'n tîm Gwasanaethau Plant ym Mlaenau Gwent.

Mae gennym 3 swydd ar gael ar gyfer uwch ymarferwyr gwaith cymdeithasol ac edrychwn am bobl egnïol ac ymroddedig i gyflawni gofynion y swyddi.

Bydd yr uwch ymarferwyr gwaith cymdeithasol yn gyfrifol am ddarparu gwasanaeth ansawdd uchel yng nghyswllt pob agwedd o'r broses atgyfeirio, gwneud penderfyniadau, asesu a rheoli gofal. Bydd hyn yn cynnwys rheoli achosion cymhleth (yn cynnwys Amddiffyn Plant a gwaith Llys), cadeirio cyfarfodydd cymhleth, goruchwylio staff a sicrhau y caiff gwybodaeth perfformiad a data eu casglu'n gywir a'u cofnodi ar system WCCIS a'u monitro yn unol â gofynion adrodd chwarterol.

Mae angen cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru dan gategori Rheolwyr Gofal Cymdeithasol/Gweithwyr Cymdeithasol ar gyfer y swydd hon a bydd angen cofrestru cyn dechrau yn y swydd. Mae gwybodaeth ar sut i gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ar gael ar y wefan ddilynol [https://socialcare.wales](https://socialcare.wales)

**Cynhelir sgrinio cyn-cyflogaeth trwyadl yn ystod y broses recriwtio. Bydd angen i ddeiliad y swydd gwblhau cais am Ddatgelu Cofnodion Troseddol**

**Dyddiad Cau:** **18/08/2022**

**Dyddiad Cyfweliadau:** **01/09/2022**